

Ffracsiynau: Gwaith Estyniad

Defnyddiwch **fodelau bar** i ateb y cwestiynau canlynol.

1. Roedd gan Ruth £120. Gwariodd $\frac{1}{4}$ o'r arian ar flows a $\frac{2}{3}$ o'r gweddill ar fag llaw. Faint o arian sydd gan Ruth ar ôl?
2. Derbyniodd Selwyn swm o arian poced. Gwariodd $\frac{1}{3}$ o'r arian ar degan a $\frac{1}{4}$ o'r gweddill ar lyfr. Pa ffracsiwn o'r arian gwreiddiol sydd gan Selwyn ar ôl?
3. Prynodd Alwyn ffrwythau ar gyfer tŷ bwyta. Roedd $\frac{1}{6}$ o'r ffrwythau yn fananas ac roedd $\frac{7}{10}$ o'r gweddill yn afalau. Roedd y gweddill yn orennau. O wybod bod Alwyn wedi prynu 9 oren, sawl ffrwyth (o bob math) prynodd Alwyn i gyd?
4. Rhoddodd Siân peth arian i'w thri phlentyn. Derbyniodd Alys $\frac{1}{5}$ o'r arian. Derbyniodd Bryn $\frac{3}{8}$ o'r gweddill, a derbyniodd Ceri'r gweddill. Os derbyniodd Ceri £10, faint o arian derbyniodd Alys?
5. Yn ystod y gwyliau, darllenodd Rachel $\frac{1}{3}$ o lyfr ar ddydd Llun. Darllenodd $\frac{5}{6}$ o weddill y tudalennau ar ddydd Mawrth, a gweddill y llyfr ar ddydd Mercher. Darllenodd 32 yn fwy o dudalennau ar ddydd Mawrth nac ar ddydd Mercher. Sawl tudalen oedd yn y llyfr i gyd?
6. Mae'r darn sydd wedi'i dywyllu yn y llun isod yn cael ei ffurfio drwy orgyffwrdd (*overlap*) $\frac{1}{4}$ o'r sgwâr efo $\frac{1}{3}$ o'r petryal. Pa ffracsiwn o'r holl lun sydd wedi'i dywyllu?

